

CYFARFOD Y PWYLLGOR CYLLID A DIBENION CYFFREDINOL a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 1af Mawrth 2017 yn y Swyddfeydd Dinesig, Canolfan Gymunedol Ffordd Wellington, y Rhyl, yn dechrau am 6.00pm.

YN BRESENNOL

Y Cyngorydd P. Prendergast (Cadeirydd)

Y Cyngorwyr B. Blakeley, Mrs E. M. Chard, Ms J. Hughes, A. R. James, Mrs P. M. Jones, Ms J. McAlpine, B. Mellor, Mrs W. M. Mullen-James, S. H. Ratcliffe, T. Thomas, y Parchedig S. Walker a Miss C. L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

113. YMDDIHEURIADAU

Cyflwynwyd ymddiheuriadau gan y Cyngorwyr I. Armstrong (yn sâl), Mrs J. Butterfield YH MBE (ar wyliau), Mrs J. Chamberlain-Jones (ymrwymiad arall), Miss S. L. Roberts (ymrwymiad gwaith), A. J. Rutherford (ymrwymiad gwaith), Miss R. Siddall (ymrwymiad gwaith), D. Simmons (yn sâl) a W. N. Tasker (yn sâl).

114. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU – IONAWR 2017

Cyflwynodd Clerc y Dref ei adroddiad (a ddsbarthwyd gyda'r rhaglen) yn manylu'r rhestr o daliadau a wnaed ym mis Ionawr 2017.

Rhif Taleb	Enw'r Cyflenwr	Swm	Disgrifiad o'r Nwyddau a'r Gwasanaethau
199	BT	316.88	Rhentu llinell a galwadau
200	BT	80.59	Rhentu llinell a galwadau
201	Shire Leasing	337.33	Taliadau prydles ar gyfer System Ffôn Avaya
202	Cyngor Sir Ddinbych	13.50	Rhent Gardd Goffa
203	Cyngor Sir Ddinbych	1.00	Rhent Lloches Bws Ysgol Tir Morfa
003	Cymdeithas Gymunedol y Rhyl	4,500.00	Rhent ar gyfer Llawr 1af Canolfan Gymuned Ffordd Wellington
204	Sage & Co	30.00	Ffioedd Cyflogres Misol Ionawr 2017
205	HSBC	16.02	Taliadau Banc 17 Tachwedd i 16 Rhagfyr 2016
206	Gunsmoke Communications	1,440.00	Ffioedd Rheoli Digwyddiadau Rhagfyr 2016
207	Cymdeithas Gogledd Cymru a Chanolbarth Cymru	48.00	Cinio i 3 Cynrychiolydd
208	Staff Cyngor Tref y Rhyl	6,667.79	Cyflogau Staff Cyngor Tref y Rhyl Ionawr 2017
209	Cyngor Sir y Fflint	3,717.93	Didyniadau Pensiwn Rhagfyr 2016 ynghyd â thalu diffyg
210	CThEM	2,753.54	Didyniadau PAYE Rhagfyr 2016
085	Siop Cyngor ar Fudd-daliadau	1,833.33	Gweithiwr Apêl Ionawr 2017
014	Cyngor Sir Ddinbych	510.00	Treth Gyngor 2016/17 Rhandaliad 10 o 10
211	St John's Cymru	96.00	Cymorth Cyntaf ar gyfer sgrinio It's a Wonderful Life yn Neuadd y Dref

212a	Conrad	600.71	Papurach
212b	Conrad	2.03	Papurach
213	Cyngor Sir Ddinbych	1,980.00	Gosod 6 golau
214	Cyngor Sir Ddinbych	306.65	Trwsio goleuadau
215	St John's Cymru	50.00	Cyfraniad am Wasanaethau – Sul y Coffa
	Cyfanswm Taliadau	25,301.30	
	HSBC	15.92	Llog ar Fuddsoddiadau 7 Diwrnod
	Santander	19.11	Llog ar Gyfrif Rhybudd 31 Diwrnod
	Cyfanswm Derbyniadau	35.03	

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r adroddiad.

115. DIWYGIO LLYWODRAETHU YSGOLION: FFRAMWAITH RHEOLEIDDIO

Ymhellach i gofnod rhif 130 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15fed Chwefror 2017, cyfeiriodd Clerc y Dref at ei adroddiad (a ddsbarthwyd gyda'r rhaglen) yn hysbysu'r Aelodau o'r newidiadau a oedd yn cael eu hystyried ar gyfer penodi Llywodraethwyr Ysgol, sef na fyddai Cyngorau Tref a Chymuned bellach yn medru penodi Llywodraethwyr Cymunedol Ychwanegol fel hawl.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.

116. YMGYNGHORIAD: CYNGOR SIR DDINBYCH – YSGOL BABYDDOL NEWYDD ARFAETHEDIG YN Y RHYL

Cyfeiriodd y Cadeirydd at yr uchod (dolen i'r ddogfen wedi ei dosbarthu gyda'r rhaglen ddogodol oherwydd ei maint) i'r Aelodau ei ystyried.

PENDERFYNWYD derbyn y ddogfen.

117. YMGYNGHORIAD: CYNGOR SIR DDINBYCH – CAU ALI AR Y BRIFFORDD YN CYFFINIO 16 AQUARIUM STREET, Y RHYL

Adroddodd y Cadeirydd iddo dderbyn yr uchod (a ddsbarthwyd gyda'r rhaglen) er ystyriaeth i'r Aelodau.

PENDERFYNWYD derbyn y ddogfen

PENDERFYNWYD YMHELLACH atal y Rheolau Sefydlog i alluogi i Glerc y Dref fedru ymateb fel mater o frys.

118. EITEMAU ER GWYBODAETH GAN YR AELODAU

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd materion brys i'w codi.

119. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r Cyfarfod er mwyn ystyried yr eitemau busnes canlynol yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.

120. CYTUNDEB TELEDI CYLCH CYFYNG

Fel cynrychiolydd y Cyngor Tref ar y Bartneriaeth Teledu Cylch Cyfyng, cyfeiriodd y Cynghorydd S. H. Ratcliffe at ei adroddiad cyfrinachol (a ddsbarthwyd gyda'r rhaglen) yn rhoi diweddariad i'r Aelodau ar gynlluniau'r Bartneriaeth at y dyfodol.

PENDERFYNWYD *derbyn yr adroddiad.*

121. CYNNIG I DDATBLYGU'R PROMENAD

Dywedodd Clerc y Dref nad oedd unrhyw beth newydd i'w adrodd.

122. EITEM SEFYDLOG – GORCHMYNION CAU HEDDLU GOGLEDD CYMRU

Ymhellach i gofnod rhif 79 cyfarfod a gynhaliwyd ar 3ydd Chwefror 2016, dywedodd Clerc y Dref nad oedd unrhyw geisiadau wedi eu derbyn gan Heddlu Gogledd Cymru.

123. TERFYNU'R CYFARFOD

Gan nad oedd unrhyw faterion eraill, datganodd y Cadeirydd bod y cyfarfod ar ben.

Cadeirydd:.....

Dyddiad:.....